*This document is available in English* **Rhif ar yr Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **21 Hydref 2019** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch, Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) (01745 535258)** |
| Pwnc | **Gosod Cyllideb 2020/21** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Yn yr adroddiad hwn, mae'r Aelodau yn cael proses y gyllideb, y rhagdybiaethau cynllunio a'r amserlenni ar gyfer gosod cyllideb refeniw'r Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer 2020/21.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Rhaid i'r ATA osod cyllideb refeniw ar gyfer 2020/21 yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr 2019. Dechreuwyd ar yr gwaith rhagbaratoi sydd ei angen i sefydlu'r gyllideb sylfaenol, ac mae'n cynnwys adolygiad o'r lefelau gwariant cyfredol, y rhagdybiaethau cynllunio allweddol, a'r risgiau. Mae crynodeb wedi'i ddarparu yn Atodiad 1.

**ARGYMHELLION**

3 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) nodi'r rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio i osod y gyllideb refeniw ar gyfer 2020/21; a

(ii) nodi'r dyddiad terfynol ar gyfer cael yr ATA i gymeradwyo'r gyllideb refeniw ar gyfer 2020/21.

**CEFNDIR**

4 Bob blwyddyn, rhaid i'r Awdurod osod cyllideb refeniw fantoledig sy'n gorfod cael ei chymeradwyo cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Mae'r ATA yn cael ei gefnogi gan Weithgor Cynllunio sy'n darparu argymhellion ar y rhagdybiaethau cynllunio strategol ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod.

5 Cyfarfu'r Gweithgor Cynllunio dair gwaith rhwng Ionawr a Mawrth 2019 i ddatblygu argymhellion ar gyfer y Cynllun Gwella a Llesiant blynyddol ar gyfer 2020/21. Argymhelliad y Gweithgor Cynllunio oedd y dylai ymgynghoriad cyhoeddus yr Awdurdod ganolbwyntio eleni ar ddatblygu a mabwysiadu Strategaeth Amgylcheddol i'w chyflawni o Ebrill 2020 ymlaen.

6 Mae'r asesiad cyllidebol wedi cael ei gwblhau gan ddefnyddio modelau cyflawni gwasanaethau sy'n bodoli eisoes. Cafodd asesiad cychwynnol 2020/21 ei gyflwyno i'r ATA ym mis Rhagfyr 2018, ac roedd yn dangos bod angen cyllideb net o £35.95m. Mae hyn yn gynnydd blynyddol o £0.71m, sy'n 2% o'r gwariant net.

7 Yn dilyn cyfarfod y Panel Gweithredol heddiw, bydd y gwaith yn dechrau ar gysylltu gyda'r awdurdodau lleol cyfansoddol i sicrhau bod gofynion cyllidebol yr Awdurdod yn cael eu cyfleu'n llwyr.

**GWYBODAETH**

8 Yn dilyn adolygiad pellach, mae'r asesiad cynllunio cychwynnol wedi cael ei gadarnhau ac mae gwybodaeth ychwanegol yn cael ei darparu yn Atodiad 1. Bydd cyllideb refeniw ddrafft 2020/21 yn cael ei hystyried i'w chymeradwyo gan yr ATA yn ei gyfarfod ar 16 Rhagfyr 2019.

9 Mae costau gweithwyr yn 72% o'r gwariant, ac mae'r asesiad cynllunio presennol yn rhagdybio 2% o ddyfarniad cyflog. Nodir nad yw'r negodiadau cyflog cenedlaethol wedi dod i ben ac mae hyn yn risg sylweddol ar hyn o bryd. Amcangyfrifir y byddai angen £0.25m yn rhagor ar gyfer pob 1% yn uwch na'r rhagdybiaeth gynllunio.

10 Mae risg pellach i gostau gweithwyr yn ymwneud â chyfraniad y cyflogwr tuag at bensiwn y diffoddwyr tân, gan fod hwnnw wedi cynyddu yn ystod 2019/20 yn dilyn ailbrisiad gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Mae prisio pensiynau yn fater cymhleth, sy'n gofyn am ragamcanion tymor hir. Yn dilyn newid yn y rhagdybiaethau, fe wnaeth cyfraniadau'r cyflogwr i gynlluniau nad ydynt yn cael eu hariannu gynyddu'n fawr yn 2019/20. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth cychwynnol ac roedd disgwyl penderfyniad am y sefyllfa hirdymor yn yr Adolygiad o Wariant a gyhoeddwyd ym mis Medi 2019. Ni chafwyd cadarnhad o'r sefyllfa ar gyfer 2020/21 ac ymlaen, ac mae hyn yn golygu risg o £1.3m. Ar hyn o bryd, mae'r rhagdybiaeth o ran y gyllideb yn dweud y bydd cyllid yn dod.

11 Nid oes cynnydd chwyddiannol wedi cael ei gymhwyso i gyllidebau nad ydynt yn gyflogau ers nifer o flynyddoedd. Y rhagdybiaeth gyfredol yw y bydd angen cynnydd o 2% i dalu pwysau costau anochel. Mae nifer o risgiau yn y cyllidebau nad ydynt yn gyflogau, gan gynnwys ansicrwydd am gyllid Llywodraeth Cymru tuag at Rwydwaith cenedlaethol y Gwasanaethau Brys.

12 Mae costau ariannu cyfalaf yn cynnwys costau benthyciadau a ffioedd refeniw am ddefnyddio asedau cyfalaf. Cynhaliwyd adolygiad o'r rhaglen gyfalaf i gefnogi'r gwaith o reoli'r costau hyn. Mae ansicrwydd yn parhau am gost benthyca, a chedwir cronfa wedi'i chlustnodi i leddfu effaith amrywiadau annisgwyl.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gan yr adroddiad hwn gysylltiad ag Amcanion Gwella a Llesiant yr Awdurdod. Mae'n adrodd ynghylch hyfywedd ariannol yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Yn ôl yr amcangyfrif cyfredol, bydd y gwariant net yn cynyddu £0.71m yn 2020/21. |
| Cyfreithiol | Mae dyletswydd ar yr Awdurdod Tân ac Achub i osod cyllideb fantoledig yn seiliedig ar ragdybiaethau cynllunio realistig. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae'r risgiau allweddol i gyllideb 2020/21 wedi cael eu hamlinellu yn Atodiad 1. |

**Atodiad 1**

**Crynodeb o'r rhagdybiaethau cynllunio a'r risgiau**

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddir i osod y gyllideb | Risgiau |
|---|---|---|
| Costau gweithwyr | • Mae'r cyllidebau staffio wedi eu ffurfio ar fodelau darpariaeth gwasanaeth cyfredol<br>• Y rhagdybiaeth waith gyfredol yw mai 2% fydd chwyddiant cyflogau<br>• Ni ragwelir unrhyw gynnydd yn y cyfraniadau yswiriant gwladol<br>• Cymerir y bydd y cynnydd yng nghyfraddau cyfraniad pensiwn y cyflogwr, sy'n deillio o brisad Adran Actiwari'r Llywodraeth, yn parhau i gael ei ariannu drwy grant gan Lywodraeth Cymru. | • Nid yw Cyd-Gyngor yr NJC wedi dod i gytundeb eto ar ddyfarniad cyflog y diffoddwyr tân am y cyfnod 2017/18.<br>• Nid yw Cyd-Bwyllgor Negodi Awdurdodau Lleol wedi cyhoeddi cynigion ar gyfer dyfarniad cyflog 2020/21 eto.<br>• Mae'r gwaith o gynllunio'r gyllideb yn rhagdybio lefelau arferol o weithgarwch. Os bydd amgylchiadau prysur, bydd pwysau ar y gyllideb. Y rhagdybiaeth waith yw y byddai'r Gronfa Gyffredinol yn cael ei defnyddio yn y lle cyntaf.<br>• Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau eto a fydd y grant i gefnogi'r cynnydd yng nghyfraniadau'r cyflogwr i gynllun pensiwn diffoddwyr tân yn parhau. Amcangyfrifir mai £1.3m fydd y costau yn 2020/21.<br>• Ym mis Rhagfyr 2018, fe gollodd y llywodaeth ei hapêl yn erbyn yr her gyfreithiol am drefniadau pontio pensiwn y diffoddwyr tân. Bydd y mater nawr yn mynd i Dribiwnlys Cyflogaeth i'w gywiro. Ni wyddom beth fydd y canlyniad ariannol, ac nid oes darpariaeth wedi cael ei gwneud.<br>• Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus i drasiedi Grenfell, gallai newidiadau fod i reoliadau adeiladu a chyfrifoldebau cysylltiedig. Nid yw'n hysbys eto sut gallai'r rhain effeithio ar y sector Tân ac Achub ac ni wnaethpwyd unrhyw ddarpariaeth. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddir i osod y gyllideb | Risgiau |
|---|---|---|
| Heb fod yn gyflogau | • Mae cyllidebau nad ydynt yn gyflogau wedi aros yr un fath ers nifer o flynyddoedd, gan wneud arbedion i liniaru rhag pwysau costau. Yr asesiad cynllunio cychwynnol oedd y byddai'r strategaeth hon yn parhau gan mwyaf, gyda chynnydd o 0.8%. Oherwydd pwysau costau anochel a pharhaus, sy'n cynnwys y cynnydd yng nghostau tanwydd, gwaith cynnal a chadw sydd wedi cronni, ardrethu annomestig cenedlaethol, yswiriant a chyfleustdodau, cynigir 2% o gynnydd yn y gyllideb. Bydd pwysau costau gweddilliol yn parhau i gael eu talu drwy reoli costau ymhob rhan o'r pennawd hwn. | • Er bod y Gwasanaeth yn parhau i adolygu costau nad ydynt yn gyflogau, ac yn ymdrechu i reoli pwysau costau o fewn y gyllideb a gynlluniwyd, mae hyn yn parhau i fod yn risg oherwydd bod pwysau parhaus ym maes technoleg gwybodaeth. Yn benodol, mae'r gwaith o gaffael Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys wedi cael ei ohirio ac mae'r contract presennol wedi cael ei ymestyn. Y rhagdybiaeth yw y bydd y £0.4m o gymorth refeniw presennol gan Lywodraeth Cymru yn parhau er na chafwyd cadarnhaol o hyn eto.<br>• Mae gadael yr Undeb Economaidd yn dal yn fater ansicr ymhob rhan o'r economi. Ni wnaethpwyd unrhyw ddarpariaeth yn y gyllideb ar gyfer cynnydd mewn costau oherwydd risgiau o ran chwyddiant neu gyfraddau cyfnewid. Yn y tymor byr, bydd y Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn yn cael ei defnyddio, ond ni fyddai hyn yn gynaliadwy yn y tymor hir.<br>• Gallai canlyniad yr ymgynghoriad ar ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol arwain at wariant ychwanegol. Nid oes unrhyw gostau wedi cael eu ffactoreiddio i'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2020/21. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddir i osod y gyllideb | Risgiau |
|---|---|---|
| Cyllid Cyfalaf | • Roedd yr asesiad cynllunio gwreiddiol yn cynnwys rhaglen gyfalaf o £3.1m ar gyfer 2019/20, gan arwain at fod angen £3.3m o gyllid cyfalaf. Mae'r rhaglen gyfalaf wedi cael ei diwygio ac yn ôl y rhagolygon presennol bydd angen £3.2m o gyllid cyfalaf, gan ddefnyddio'r gostyngiad i ariannu'r pwysau costau sy'n digwydd yn y gyllideb nad yw'n gyflogau. | • Nid yw'r cynnydd posibl yn y cyfraddau llog yn hysbys, a gallent fod yn uwch na'r rhagdybiaethau cynllunio. |
| Incwm | • Adolygwyd y cyllidebau incwm, a gosodwyd nhw yn unol â'r blynyddoedd blaenorol. | • Ni chanfuwyd unrhyw risgiau penodol. |